POLISI YR IAITH GYMRAEG

NOD

Nod y cylch yw cynnig i bob plentyn cyn-ysgol yn ei ddalgylch y cyfle i gael profiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

EGWYDDOR

Cred y cylch bod yr iaith Gymraeg o fantais i blant, ac o'r herwydd trefnir cymaint o oriau cyswllt â'r iaith Gymraeg â phosibl a defnyddio'r iaith Gymraeg yn unig yn ei ddarpariaethau.

COD YMARFER

Bydd y cylch yn:

- **sicrhau bod yr holl weithgareddau ar gyfer y plant yn cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg ac y defnyddir y fethodoleg dull trochi i hwyluso caffaeliad iaith Gymraeg y plant (gweler tud 85 y Canllawiau Rheoli).**
- **ymrwymo i weithredu holl elfennau Cod Ymarfer Polisi yr Iaith Gymraeg**
- hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob gweithgaredd sydd yn gysylltiedig â'r cylch ond bydd yn sicrhau na fydd unrhyw riant yn cael ei adael allan o unrhyw weithgaredd ar sail ei gefndir ieithyddol
- sicrhau bod hysbysebion am swyddi yn esbonio ymrwymiad y cylch i'r iaith Gymraeg.
- sicrhau bod gan bob aelod o staff a benodir rhuglder digonol yn y Gymraeg i ymgymryd â holl ddyletswyddau'r swydd. Bydd yn ofynnol i unrhyw aelod newydd o staff sydd angen gloywi ei h/iaith ymgymryd â chwrs Cymraeg perthnasol e.e Cwrs Iaith Sylfaenol y Cylch Meithrin (gweler tud 87 y Canllawiau Rheoli). Bydd y Pwyllgor yn sicrhau bod pob person a benodir i swydd yn y cylch yn ymwybodol o Bolisi yr Iaith Gymraeg, yn ei ddeall ac yn ymrwymo iddo.
- cynnig cefnogaeth briodol i rieni di-Gymraeg, er mwyn eu galluogi i gymryd rhan lawn yn addysg Gymraeg eu plant
- sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gael i ymestyn iaith Gymraeg y plant.
- sicrhau bod unrhyw ddeunydd ysgrifenedig sy'n cael ei gynhyrchu yn enw'r cylch yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Mae derbyn a gweithredu Polisi yr Iaith Gymraeg hwn yn amod o fod yn aelod gyda Mudiad Meithrin. Ni chaniateir newid unrhyw elfen o'r polisi hwn. Os yw cylch yn profi anhawster gyda chynnal safon y Gymraeg o fewn gweithgareddau'r cylch, dylid cysylltu â Chyfarwyddwr Iaith Mudiad Meithrin am gyngor a chefnogaeth bellach.

WELSH LANGUAGE POLICY

AIM
The aim of the cylch is to offer every pre-school child in its catchment area the opportunity to have early years' experiences through the medium of the Welsh language.

PRINCIPLE
The cylch believes that acquiring the Welsh language benefits children and thus it will organise as many contact hours as possible with the Welsh language and use only Welsh in its provision.

CODE OF PRACTICE
The cylch will:

- **ensure that all the activities for the children are conducted through the medium of Welsh and that the immersion method is used to facilitate the children's acquisition of the Welsh language (see page 86 of the Management Guidelines).**
- **be committed to implementing all the elements of the Welsh Language Policy's Code of Practice.**
- promote the use of Welsh in every activity associated with the cylch, but it will ensure that no parent is excluded from any of its activities on the basis of his/her linguistic background
- ensure that job advertisements explain the cylch's commitment to the Welsh language.
- ensure that every member of staff who is appointed is sufficiently fluent in Welsh to undertake all the duties of the post. Any new member of staff who needs to improve his/her language skills will take a relevant Welsh language course e.g. the Cylch Meithrin Basic Welsh Language Course (see page 88 of the Management Guidelines). The Committee will ensure that every person appointed to a post is aware of, understands and is committed to the Welsh Language Policy.
- offer non-Welsh-speaking parents appropriate support to enable them to participate fully in their children's Welsh medium education.
- ensure that there is a wide range of Welsh-medium resources available to extend the children's Welsh language skills.
- ensure that any written material produced in the cylch's name is in Welsh or bilingual.

Being a member of Mudiad Meithrin depends upon accepting and implementing this Welsh Language Policy. If the cylch finds difficulty in maintaining the standard of Welsh within the cylch's activities, it should contact Mudiad Meithrin's Language Director for further advice and support.